



Gwybodaeth am Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (CDCG) Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n gweinyddu cronfa datblygu cymunedau gwledig yn syth i sefydliadau, heb ddarparu mwy nag 80% o gostau prosiect cymwys (costau prosiect cyffredinol hyd at £160,000). Arian Cyfalaf yw hyn.

Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yw 31 Ionawr 2016. Bydd gwahoddiad i wneud cais llawn o 30 Ebrill 2016, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fydd 31 Hydref 2016.

Meysydd yr ymdrinnir â nhw gan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

- cefnogaeth ar gyfer buddsoddiadau mewn creu, gwella neu ehangu pob math o isadeiledd ar raddfa fach, gan gynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni
- cefnogaeth ar gyfer isadeiledd band llydan, gan gynnwys creu, gwella ac ehangu isadeiledd band llydan goddefol a darpariaeth mynediad at fand llydan ac e-lywodraeth gyhoeddus
- cefnogaeth ar gyfer buddsoddiadau mewn sefydlu, gwella neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol ar gyfer y boblogaeth wledig gan gynnwys hamdden a diwylliant a'r isadeiledd cysylltiedig
- cefnogaeth ar gyfer buddsoddiadau at ddefnydd y cyhoedd mewn isadeiledd hamdden, gwybodaeth dwristiaeth ac isadeiledd twristiaeth ar raddfa fach
- cefnogaeth ar gyfer astudiaethau a buddsoddiadau i gynnal a chadw, atgyweirio a gwella treftadaeth ddiwylliannol a naturiol
- cefnogaeth ar gyfer buddsoddiadau sy'n targedu adleoli gweithgareddau a throsi adeiladau neu gyfleusterau eraill mewn aneddiadau neu'n agos at aneddiadau gwledig, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd neu gynyddu perfformiad amgylcheddol yr anheddiad

Dylai sefydliadau gyfeirio at y Grŵp Gweithredu Lleol/Strategaeth Datblygu Lleol mewn unrhyw gais.

Bydd mentrau'n cael eu hannog i gyflwyno cais yn uniongyrchol.

Dyma'r ddolen i'r ddogfennaeth:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/rural-community-development-fund/?lang=en>

Arian RhDG Arall gan Lywodraeth Cymru

Efallai byddai diddordeb gennych mewn nifer o gynlluniau eraill a allai ddarparu arian trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig ehangach:

Cynllun Dechrau Busnes Gwledig
Cynllun Buddsoddi mewn Busnes Gwledig
Cynllun Ymgynghori Busnes Gwledig
Cynllun Dechrau Ffermwyr Ifanc
Cynllun Ffermydd a Choedwigoedd
Cynllun Monitro a Rheoli Perygl Coedwigoedd
Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy
Cynllun Buddsoddi mewn Busnes Coed
Cynllun Buddsoddi mewn Busnes Bwyd
Cynllun Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd
Cynllun Cydweithredu
Cyswllt Ffermio
Glastir
Coetiroedd Glastir

Os hoffech ddiweddariadau rheolaidd am Arian Llywodraeth Cymru, cysylltwch â Chydlynnydd Cwm Taf Gwledig joanne.nicholas@merthyr.gov.uk 01685 727089